TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Dyddiad cyhoeddi: 3 Tachwedd 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch Cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Gofynnoch am y wybodaeth ganlynol:

- Faint o honiadau o aflonyddu rhywiol/ymosodiad/camymddwyn sydd wedi'u gwneud yn erbyn gweithwyr neu staff Trafnidiaeth Cymru?

- Faint o hawliadau triniaeth annheg (sy'n gysylltiedig ag aflonyddu rhywiol neu o ran rhywedd) o dan y ddeddf cydraddoldeb a wnaed yn erbyn gweithwyr neu staff Trafnidiaeth Cymru?

- Manylion sut y datryswyd y ddau bwynt bwled uchod - er enghraifft, faint ohonynt a atgyfeiriwyd at dribiwnlys cyflogaeth, neu at yr heddlu? Faint arweiniodd at rybuddion neu derfynu cyflogaeth?

- Beth yw canllawiau swyddogol Trafnidiaeth Cymru ar gyfer delio gyda honiadau o naws rywiol, mewn swyddfeydd ac ar safleoedd? Sut rydych chi'n delio gyda'r rhain, er enghraifft, ar safleoedd adeiladu gydag isgontractwyr?

Ar ôl adolygu'ch cwestiwn, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol i chi:

Nid oes unrhyw honiadau o aflonyddu rhywiol, ymosodiad na chamymddwyn wedi eu gwneud yn erbyn gweithiwr Trafnidiaeth Cymru.

Mae un honiad o driniaeth annheg wedi bod yn erbyn gweithiwr Trafnidiaeth Cymru. Roedd yr honiad hwn yn ymwneud â rhywedd yr achwynydd ac ymchwiliwyd i'r mater. Datgelodd yr ymchwiliad nad oedd tystiolaeth ddigonol i brofi'r honiad, felly ni chymerwyd camau pellach.

Mae gan Trafnidiaeth Cymru Bolisi Bwlio ac Aflonyddu cadarn, a byddai'n ymchwilio i unrhyw honiad o ymddygiad amhriodol ac yn delio gyda'r mater yn unol â'n gweithdrefnau disgyblu.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o fudd i chi. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru